

## #CrowdCymru

### Opsiynau ar gyfer ehangu'r prosiect yn y dyfodol

#### Cefndir

Ariannwyd prosiect #CrowdCymru gan Gronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol ar gyfer cam cyntaf y prosiect. O'r cychwyn cyntaf, y bwriad gyda'r cam hwn oedd profi'r cysyniad yn ogystal â bod yn brosiect ynddo'i hun. Mae'r prosiect wedi profi bod y fethodoleg a ddefnyddiwyd ganddo yn gallu bod yn llwyddiannus – gwirfoddolwyr yn gweithio o bell ar gasgliadau archif trwy blatfform torfoli.

Trwy ddefnyddio platfform torfoli a ddatblygwyd gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru, trosglwyddwyd casgliadau o bob un o'r gwasanaethau archif trwy IIF i'r platfform, ac yno cawsant eu trawsgrifio, eu crynhoi neu eu tagio gan dîm o wirfoddolwyr er mwyn gwella'r wybodaeth am y casgliadau. Yna, roedd y wybodaeth a oedd wedi cael ei gwella yn cael ei throsglwyddo yn ôl i gatalogau'r gwasanaethau archif, ac roedd hynny'n golygu ei bod yn haws i ymchwilwyr ddarganfod y casgliadau.

Roedd y prosiect yn llwyddiannus iawn, ac fe lwyddodd i ddangos:

- Ei bod yn bosibl trosglwyddo gwybodaeth a delweddau o gatalogau gwasanaethau i'r platfform torfoli - ac yn ôl - er nad oedd hynny heb ei drafferthion gyda rhai casgliadau
- Bod archwaeth yn y gymuned am gyfleoedd gwirfoddoli digidol, a bod hyn yn gynnig defnyddiol i sefydliadau treftadaeth
- Roedd angen ystyried y casgliadau sy'n cael eu lanlwytho yn ofalus gan fod rhai yn fwy poblogaidd nag eraill. Roedd trawsgrifio llythyron a dyddiaduron yn boblogaidd iawn, ond roedd tagio ffotograffau yn llai poblogaidd.

Mae'r partneriaid a oedd ynghlwm â cham cyntaf y prosiect (Archifau Gwent, Casgliadau Arbennig ac Archifau Prifysgol Caerdydd ac Archifau Morgannwg) yn dymuno parhau â'r gwaith. Y nod yw ehangu'r prosiect i gynnwys gwasanaethau archif a chymunedau eraill ledled Cymru a gwneud y prosiect yn fwy hunangynhaliol ac yn rhan o'r drefn arferol i bartneriaid #CrowdCymru a gwasanaethau archif yn y dyfodol.

Byddai prosiectau yn y dyfodol yn agored ar gyfer yr holl wasanaethau archif yng Nghymru, ond yn y lle cyntaf mae'r partneriaid yn ceisio cyfranogiad gan wasanaethau yn y gogledd a'r gorllewin er mwyn ehangu lledaeniad daearyddol y prosiect a chyrraedd cymunedau gwahanol.

Nid oes gan y gwasanaethau'r adnoddau i gynnal prosiectau o'r fath ar hyn o bryd, ac mae'r adroddiad hwn yn amlinellu costau prosiectau'r dyfodol yn ogystal â chyfleoedd posibl am gyllid.

## 1. Amcan o'r costau

O'r gwersi a ddysgwyd yn ystod y cam cyntaf, rydym wedi gweld y bydd gofyn cael cyllid pellach ar gyfer y canlynol:

1. Aelod o staff (rhan-amser) i reoli'r cyswllt gyda gwirfoddolwyr (Swyddog Prosiect)
2. Cyllid i ddatblygu'r platfform er mwyn ein galluogi i ddatblygu'r ffordd y mae'r platfform yn gweithio.
3. Cyllideb ar gyfer costau teithio er mwyn i'r Swyddog Prosiect fynd allan i gwrdd â phartneriaid a hyrwyddo'r prosiect
4. Caledwedd a meddalwedd TG ar gyfer y Swyddog Prosiect
5. Costau cyfieithu er mwyn i'r holl ddeunydd cyhoeddusrwydd a chyfathrebu fod ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg
6. Cyllideb fechan ar gyfer digido i gefnogi partneriaid nad oes ganddynt fynediad at gyfleusterau digido mewnol.

Amcangyfrifir y byddai'r costau blynyddol ar gyfer y prosiect fel a ganlyn:

Swyddog Prosiect (2 ddiwrnod - 15 awr yr wythnos, gan gynnwys gorbenion)	£14,300
Cyllid datblygu ar gyfer Llyfrgell Genedlaethol Cymru	£5,000
Cyllideb ar gyfer teithio	£1,000
Caledwedd a meddalwedd TG	£1,000
Costau cyfieithu ar gyfer deunyddiau dwyieithog	£1,000
Costau digido ar gyfer partneriaid â chyfleusterau digido?	£3,000
<b>CYFANSWM</b>	<b>£25,300</b>

## 2. Opsiynau ar gyfer y cyllid

Byddwn yn ceisio cyllid allanol er mwyn galluogi i'r prosiect fynd yn ei flaen. Nid ydym wedi ystyried ceisio am nawdd gan Gronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol yn y dyfodol gan ei bod eisoes wedi cefnogi #CrowdCymru ac nid oes unrhyw gyllid ar gael ar gyfer estyniad.

Sefydliad	Cymhwysra	Disgrifiad	Canlyniad i #CrowdCymru
Y Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol	Prifysgolion ac Elusennau	Mae yna nifer o ffrydiau nawdd yn eu lle sy'n cefnogi disgyblaethau gwyddor gymdeithasol, gan gynnwys hanes economaidd a chymdeithasol	Gallai'r prosiect fod yn gymwys trwy gais a arweinir gan Brifysgol, ond nid yw'n hysbysebu unrhyw raglenni cyllid addas ar hyn o bryd
Cyngor Ymchwil y Celfyddydau a'r Dyniaethau	Darparwyr addysg uwch, sefydliadau ymchwil,	Cyllid ar gyfer ymchwil gwreiddiol neilltuol ar draws meysydd y celfyddydau a dyniaethau	Nid ydym yn gymwys ar gyfer y cyllid hwn
Yr Archifau Gwladol: Grant Cydnerthedd	Gwasanaethau archif yn Lloegr	Mae'n dyfarnu grantiau o hyd at £20,000 i rymuso'r sector archifau i ddod o hyd i ddatrysiadau cynaliadwy sy'n galluogi newid ac yn datblygu cydnerthedd sefydliadau, ac i ddatblygu'r datrysiadau hynny	Nid ydym yn gymwys ar gyfer y cyllid hwn
Yr Archifau Gwladol: Grantiau Ymchwil ac Arloesi	Gwasanaethau archif yng Nghymru a Lloegr	2 grant o hyd at £15,000 a grantiau llai o hyd at £5,000 sydd â ffocws ar roi sylw i drawsnewid digidol, cynaliadwyedd amgylcheddol ac arfer cynhwysol yn y sector archifau	Mae'r prosiect yn gymwys, ond gan fod y trawsnewid digidol eisoes wedi digwydd a'r prosiect nesaf yn ymwneud â sefydlu'r bartneriaeth, mae'n annhebygol o fod yn llwyddiannus.
Llywodraeth Cymru, trwy Gyngor Archifau a Chofnodion Cymru	Gwasanaethau archif yng Nghymru	Mae Cyngor Archifau a Chofnodion Cymru yn cael grant blynyddol gan Lywodraeth Cymru (Diwylliant a Chwaraeon) i gefnogi gwasanaethau archif.	Yn gymwys
Cyngor Archifau a Chofnodion Cymru: Grantiau Cynnal Achredu	Gwasanaethau archif yng Nghymru	Mae Cyngor Archifau a Chofnodion Cymru yn cynnig cyfleoedd i geisio am botiau llai o arian trwy ei gynllun Grantiau Cynnal Achredu	Yn gymwys, er, mae'r rhain yn botiau llai o arian (£12,000) ac felly byddai gofyn cael nawdd ychwanegol gan wasanaethau partner
Prosiect sy'n hunan-gyllido rhwng partneriaid		Mae'r partneriaid sy'n bodoli yn cyfrannu cyllid er mwyn parhau â'r prosiect, gan ehangu'r cyfle i wasanaethau eraill yng Nghymru ymuno	

### 3. Cyllido #CrowdCymru

Yr opsiynau mwyaf tebygol ar gyfer y prosiect #CrowdCymru yw cais i Lywodraeth Cymru trwy Gyngor Archifau a Chofnodion Cymru, ceisio am Grant Cynnal Achredu trwy Gyngor Archifau a Chofnodion Cymru a model hunan-gyllido.

	<b>Cais i Lywodraeth Cymru</b>	<b>Grant Cynnal Achredu</b>	<b>Model hunan-gyllido</b>
<b>Disgrifiad</b>	Mynd at Gyngor Archifau a Chofnodion Cymru gyda chynnig i ehangu'r prosiect i gynnwys gwasanaethau archif a chymunedau ledled Cymru a sefydlu gweithgarwch gwirfoddol fel 'Busnes Arferol'	Ceisio am Grant Cynnal Achredu llai, yn rhan o brosiect partneriaeth, trwy Gyngor Archifau a Chofnodion Cymru, i ehangu'r prosiect i wasanaethau archif a chymunedau ledled Cymru a sefydlu gweithgarwch gwirfoddol fel 'Busnes Arferol'	Estyn y cyfle i gymryd rhan yn y prosiect i wasanaethau ledled Cymru, gyda phob un yn cyfrannu at gost y prosiect
<b>Buddion</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Ni fyddai'r prosiect yn dibynnu ar amgylchiadau ariannol pob gwasanaeth</li> <li>Gallai gwasanaethau ledled Cymru gymryd rhan, waeth faint y maen nhw'n gallu ei gyfrannu'n ariannol</li> <li>Strwythurau, nodau a mecanweithiau adrodd clir ar gyfer y prosiect</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Byddai'r prosiect yn llai dibynnol ar amgylchiadau ariannol pob gwasanaeth gan y byddai cyfran uchel o'r gost yn cael ei hariannu</li> <li>Strwythurau, nodau a mecanweithiau adrodd clir ar gyfer y prosiect</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Byddai'n golygu bod y prosiect yn gallu mynd yn ei flaen waeth faint o gyllid grant sydd ar gael</li> </ul>
<b>Risgiau</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Efallai na fydd y cais yn llwyddiannus</li> <li>Efallai y bydd y cais yn llwyddiannus, ond efallai na fydd yn cynnwys cost gyfan y prosiect, er efallai y gellid lliniaru hyn trwy gyfraniadau (llai) gan bartneriaid.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Efallai na fydd y cais yn llwyddiannus</li> <li>Mae'r model hwn yn dibynnu o hyd ar rywfaint o gyfraniad ariannol gan wasanaethau, a gallai hyn fod yn rhwystr i rai o hyd</li> <li>Efallai y byddai gofyn newid cwmpas y prosiect neu hyd y prosiect yn ganlyniad i lefelau cyllid is</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Ni fyddai'r gost o gymryd rhan yn ymarferol i rai o'r gwasanaethau</li> <li>Yn ganlyniad i ddsbarthiad daearyddol gwasanaethau, efallai na fydd yn bosibl, a gallai barhau i ganolbwyntio ar y gwasanaethau mwy o faint yn y de</li> <li>Mae cyfrifoldebau rheoli'r prosiect yn llai clir yn y model hwn, er y byddai cytundeb prosiect cryf yn lliniaru'r risg hon</li> <li>Byddai nifer y gwasanaethau sy'n cymryd rhan - a'u cyfraniad ariannol - yn dylanwadu ar hyd y prosiect a'i gwmpas</li> </ul>

## **Casgliad**

Argymhellir, yn y lle cyntaf, geisio am £25,000 o nawdd allanol o gronfa Diwylliant a Chwaraeon Llywodraeth Cymru trwy broses nawdd Cyngor Archifau a Chofnodion Cymru.

Os na fydd y nawdd hwn yn llwyddiannus, gellid gofyn yn uniongyrchol i Gyngor Archifau a Chofnodion Cymru am nawdd trwy'r cynllun Grant Cynnal Achredu. Unwaith y byddwn wedi mynd ar drywydd y llwybrau hyn, byddwn yn mynd ar drywydd opsiynau eraill gan gynnwys model hunan-gyllido.